

Pumed adroddiad i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Hydref 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddSafonau

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddSafonau@senedd.cymru**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Pumed adroddiad i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Hydref 2022




Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddSafonau

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
Vikki Howells AS
Llafur Cymru



Natasha Asghar AS
Ceidwadwyr Cymreig



John Griffiths AS
Llafur Cymru



Peredur Owen Griffiths AS
Plaid Cymru

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	5
2.	Y Gŵyn.....	6
3.	Materion o Egwyddor Gyffredinol.....	8

1. Cyflwyniad

1. Nodir cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ("y Pwyllgor") yn Rheol Sefydlog 22.1. Yn unol â'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22.2, mae'n rhaid i'r Pwyllgor:

"mewn perthynas ag unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau...ymchwilio i'r gŵyn, cyflwyno adroddiad arni ac, os yw'n briodol, argymhell camau mewn perthynas â hi..."

2. Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 22.9 a pharagraff 8.1 o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd ("y Weithdrefn") a oedd ar waith pan wnaed y gŵyn.¹

3. Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion am y gŵyn a'r hyn a ystyriodd y Pwyllgor wrth lunio ei argymhelliad.

4. Mae'r Weithdrefn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor wneud adroddiadau gan y Comisiynydd Safonau ("y Comisiynydd") yn ddiennw mewn achosion lle dyfarnwyd bod cwyn yn dderbyniadwy ond na chanfuwyd unrhyw fethiant i gydymffurfio.

5. Gan fod y Pwyllgor wedi canfod nad oedd achos o dorri'r Cod Ymddygiad, mae'r adroddiad hwn yn ddiennw yn unol â gofyniad y Weithdrefn. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad yn yr achos hwn mai dim ond drwy gynhyrchu crynodeb o adroddiad y Comisiynydd, sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn, yn hytrach na'i olygu, y gellid sicrhau ei fod yn gwbl ddiennw.

¹ Cafodd y Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd ei diweddarau a'i diwygio ym mis Gorffennaf 2022. Gwnaed y gŵyn hon i'r Comisiynydd ym mis Mai 2022.

2. Y Gŵyn

- 6.** Derbyniodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad adroddiad gan y Comisiynydd Safonau yn ymwneud ag atgyfeiriad gan Glerc y Senedd at y Comisiynydd mewn perthynas â chamddefnyddio adnoddau'r Senedd.
- 7.** Mae'r gŵyn yn ymwneud â dwy daflen etholiad ar gyfer yr Etholiadau Lleol ar 5 Mai 2022 a oedd yn gwahodd y derbynwyr i gysylltu â thri ymgeisydd gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost Senedd yr Aelod, cyfeiriad post swyddfa Senedd ranbarthol yr Aelod, neu rif ffôn y swyddfa honno.
- 8.** Canfu'r Comisiynydd fod y gŵyn a ddaeth i law yn dderbyniadwy ond, ar ôl cynnal ymchwiliad, nad oedd unrhyw achos o dorri'r Cod Ymddygiad.

- 9.** Canfu'r Comisiynydd:

"... There was no evidence of any increase in the telephone usage in the office or the number of postal communications received in the months before the elections.

... In March 2022 there was an increase of 76%, compared with the average of the previous three months, in the number of emails received by the Member's Senedd email address and an increase of 58% in the number of emails sent from that address."

- 10.** Mae adroddiad y Comisiynydd yn nodi bod yr Aelod wedi rhoi esboniad credadwy o'r cynnydd sylweddol yn y defnydd o'i gyfeiriad e-bost, a oedd yn ymwneud â chyhoeddi adroddiad blynyddol yr Aelod ym mis Mawrth 2022.

- 11.** Mae barn resymedig y Comisiynydd yn nodi bod ganddo:

"...no doubt that the contact details were included in the leaflets in contemplation that someone would use them to make contact about matters relating to the council elections. Nor do I have any doubt that the dealing with any such contact by the Member's staff, or by anyone else whilst in the regional office would have contravened either of both of Rules 3 and 4 of the old Resource Rules and so Rule 8."

Ond bod yn rhaid iddo wneud y canlynol:

"...to deal with the referral on the basis of the available evidence. There is no evidence that even a single contact was made as a result of the leaflets. Nor was there any evidence that any of the Member's staff carried out work that was not connected with his duties as a Member whilst they were being paid out of Commission resources or used any equipment provided out of Commission resources improperly. ...Accordingly, I have to conclude that there was no contravention of the old Resource Rules and that the Member did not breach Rule 8 of the Code or any other relevant provision."

O ganlyniad, gwrthododd y Comisiynydd y gŵyn.

Ystyriodd y Pwyllgor y ffeithiau a ganfuwyd yn adroddiad y Comisiynydd a chytunodd â chanfyddiad y Comisiynydd na thorwyd darpariaethau'r Cod Ymddygiad mewn perthynas â defnyddio adnoddau'r Senedd.

3. Materion o Egwyddor Gyffredinol

12. Nododd y Comisiynydd yn ei adroddiad:

"In the absence of 'insider' information it will always be very difficult to prove to the required standard that a Member has breached Rule 8. Whilst I note that the Guidance on Rule 3 (The employment of staff funded by Commission resources) of the new Rules and Guidance on the Use of Senedd Resources recommends that Members 'consider the processes they need to put in place to ensure that their staff only undertake work in connection with the Member's duties' it continues to be my view that there should be a requirement for Members to keep accurate records of hours worked by each staff member. Paragraph 9 of the new Resource Rules makes provision for additional provisions during election periods. I recommend that consideration be given to imposing such a duty in the period leading up to any election."

13. Mae'r Pwyllgor yn nodi sylwadau'r Comisiynydd, a bod hwn yn fater i'r Prif Weithredwr a Chlerc, sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r rheolau hyn.

14. Amlygodd yr Aelod dan sylw mewn gohebiaeth â'r Comisiynydd y gallai fod wedi bod yn ddefnyddiol cael hyfforddiant ynghylch y gofynion ar Aelodau yn ystod cyfnod etholiad. Mae'r Pwyllgor yn nodi mai'r Aelodau sy'n gyfrifol am ddeall gofynion y Cod a'r Rheolau cysylltiedig a bod Aelodau'n cael amrywiaeth o hyfforddiant gan gynnwys ar y Cod a'r rheolau cysylltiedig, yn enwedig yn ystod y cyfnod cynefino, ar ddechrau'r Senedd. Mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai'n fuddiol cynyddu hyfforddiant drwy gydol cyfnod y Senedd ar y rheolau sy'n llywodraethu Aelodau, yn enwedig cyn cyfnod etholiad i atgyfnerthu cyfrifoldebau'r Aelodau. Mae'r Pwyllgor wedi codi'r mater hwn gyda'r Prif Weithredwr a Chlerc.

15. Yn ystod yr ymchwiliad hwn, gofynnodd y Comisiynydd i nifer o staff cymorth am wybodaeth yn ymwneud â'r gŵyn hon. Nododd y Comisiynydd nad oedd dau wedi ymateb (ond cafwyd ymateb gan un ohonynt ar ôl yr adroddiad terfynol). Hoffai'r Pwyllgor atgoffa'r holl Aelodau o ofyniad rheol 24 yn y Cod Ymddygiad:

"Rhaid i Aelodau gymryd camau rhesymol i sicrhau bod eu staff, wrth weithredu ar eu rhan, hefyd yn cynnal ac yn gweithredu yn unol â'r Rheolau hyn a'r Egwyddorion Trosfwaol."